**Awdurdodiadau gan Weinidogion Cymru fel yr Awdurdod Cymwys i Gymru dan Reoliad (EC) 1069/2009 a Rheoliad y Comisiwn (EU) 142/2011**

**Sylwer:** mae rhai Awdurdodiadau penodol yn cyfeirio at ofyniad i'r gweithredwr fod wedi'i gofrestru dan erthygl 23 Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 er mwyn i'r Awdurdodiad fod yn berthnasol. Dylech gyfeirio unrhyw gwestiynau ynglŷn â chofrestru at eich Swyddfa Iechyd Anifeiliaid Ranbarthol neu Leol. Am fanylion cyswllt, rhowch glic ar http://www.defra.gov.uk/animalhealth/about/contact-us/postcode.asp

**Adran A: Defnyddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid at ddibenion porthiant:-**

| Cyf. Rheoliad 1069/2009: | Cyf. Rheoliad 142/2011: | Teitl yr Awdurdodiad (dolenni at yr awdurdodiad llawn) | Rhif Awd. |
|---|---|---|---|
| D/C | Erthygl 21; At X P II A4 Rhan II 4 | **Awdurdodiad** i gyflenwi llaeth tor i ffermydd eraill at ddibenion porthiant | A1 |
| Erthygl 16(c); Erthygl 18(1)+(3) | Erthygl 13; At VI P II A1 | **Awdurdodiad** i gasglu deunydd Categori 3 a deunydd Categori 2 penodol a'u defnyddio fel porthiant ar gyfer anifeiliaid sw | A2 |
| Erthygl 16(c); Erthygl 18(1)+(3) | D/C | (dirymwyd ym mis Mai 2013) | A3 |
| Erthygl 16(c); Erthygl 18(1)+(3) | D/C | **Awdurdodiad** i gasglu deunydd Categori 3 a deunydd Categori 2 penodol a'u defnyddio fel porthiant ar gyfer ymlusgiaid ac adar ysglyfaethus nad ydynt yn rhai gwyllt ac eithrio anifeiliaid sw neu syrcas | A4 |
| Erthygl 16(c); Erthygl 18(1)+(3) | D/C | **Awdurdodiad** i gasglu deunydd Categori 3 a'i ddefnyddio fel porthiant ar gyfer anifeiliaid gwyllt | A5 |
| Erthygl 16(c); Erthygl 18(1)+(3) | Erthygl 13; At VI P II A1 | **Awdurdodiad** i gasglu deunydd Categori 3 a deunydd Categori 2 penodol a'u defnyddio fel porthiant ar gyfer cŵn o letyau cŵn cydnabyddedig neu gnudoedd o gŵn hela | A6 |
| Erthygl 16(c); Erthygl 18(1)+(3) | Erthygl 13; At VI P II A1 | **Awdurdodiad** i gasglu deunydd Categori 3 a deunydd Categori 2 penodol a'u defnyddio fel porthiant ar gyfer cŵn a chathod mewn llety au anifeiliaid | A7 |
| Erthygl 16(c); Erthygl 18(1)+(3) | Erthygl 13; At VI P II A1 | **Awdurdodiad** i gasglu deunydd Categori 3 a deunydd Categori 2 penodol a'u defnyddio fel porthiant i gynrhon a mwydod a ddefnyddir fel abwyd pysgota | A8 |
| Erthygl 16(c); Erthygl 18(2)+(3) | Erthygl 14; At VI P II A4 | **Awdurdodiad** i ddefnyddio fel porthiant ar gyfer anifeiliaid sw ddeunydd Categori 1 sy'n cynnwys anifeiliaid marw neu rannau o anifeiliaid marw sydd ag ynddynt ddeunydd risg penodedig a deunydd sy'n dod o anifeiliaid sw | A9 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 16(g) gydag Erthyglau 12,13 a 14 | D/C | **Awdurdodiad** i fwydo deunydd Categori 3 i anifeiliaid anwes | A10 |
| D/C | At X P III | **Awdurdodiad** amodau ar gyfer defnyddio anifeiliaid dyfrol ac infertebratau tir a dyfrol (a) fel porthiant ar gyfer infertebratau dyfrol neu bysgod sy’n cael eu ffermio a (b) fel abwyd pysgota ar gyfer anifeiliaid dyfrol ac infertebratau dyfrol | A11 |

**Adran B: Rhoi sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ar y tir:-**

| **Cyf. Rheoliad 1069/2009:** | **Cyf. Rheoliad 142/2011:** | **Teitl yr Awdurdodiad (dolenni at yr awdurdodiad)** | **Rhif Awd.** |
|---|---|---|---|
| Erthyglau 13(f), 14(l) a 32(1) | Erthygl 5(2) At II P II | **Awdurdodiad** i osod rhai deunyddiau Categori 2 a 3 ar y tir heb eu prosesu | B1 |
| Erthygl 14(h) | D/C | **Awdurdodiad** – pennu amodau ar gyfer defnyddio plisg wy ar y tir | B2 |
| Erthygl 16(f) gydag Erthyglau 12, 13 ac 14 | | **Awdurdodiad** i ddefnyddio deunyddiau Categori 2 a 3 i baratoi paratoadau biodeinamig a'u rhoi ar y tir | B3 |
| Erthygl 32(1)(d) | Erth 22(3); At XI P II A1 Pwynt 3 | **Awdurdodiad** ar gyfer y cydrannau i'w cymysgu gyda gwrteithiau organig neu ddeunyddiau organig i wella pridd | B4 |
| | Erthygl 9 (c) ac Atodiad IV, Pennod IV, Adran 3, pwynt 2(b)(iii) | **Awdurdodiad i ddefnyddio ar y tir weddillion treulio sy'n deillio o'r broses o drawsffurfio glyserin Categori 1/2 a gafwyd o'r broses biodiesel yn fionwy** | B5 |
| Erthygl 14(h) | | **Awdurdodiad** yr amodau ar gyfer taenu ar y tir gregyn pysgod cregyn wedi'u coginio sydd yng Nghategori 3 gyda meinwe feddal a'r cnawd ynghlwm: | B6 |

**Adran C: Gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid:-**

| **Cyf. Rheoliad 1069/2009** | **Cyf. Rheoliad 142/2011:** | **Teitl yr Awdurdodiad (dolenni at yr awdurdodiad)** | **Rhif Awd.** |
|---|---|---|---|
| Erthygl 12; Erthygl 14(c) | Erthygl 7 | **Awdurdodiad** i waredu bwyd anifeiliaid anwes Categori 1 penodol a bwyd anifeiliaid anwes Categori 3 a hen fwydydd ar safle tirlenwi awdurdodedig | C1 |
| Erthygl 16(d); Erthygl 19(1)(a) | Erthygl 15; At VI P III A1 | **Awdurdodiad** i waredu anifeiliaid anwes ac equidae trig trwy gladdu | C2 |
| Erthygl 16(d); Erthygl 19(1)(b), (2) a 4(b) | Erthygl 15; At VI P III A1 | **Awdurdodiad** i waredu deunydd Categori 1 penodol a deunydd Categori 2 a 3 mewn ardaloedd anghysbell trwy gladdu neu ddulliau eraill | C3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 16(d); Erthygl 19(1)(c) | Erthygl 15; At VI P III A1 | **Awdurdodiad** i waredu deunydd Categori 1 penodol a deunydd Categori 2 a 3 trwy gladdu neu ddulliau eraill, lle mae mynediad yn anodd am resymau daearyddol, hinsawdd neu drychineb naturiol | C4 |
| Erthygl 16(d); Erthygl 19(1)(e) | Erthygl 15; At VI P III A1 | **Awdurdodiad** i waredu deunydd Categori 1 penodol a deunydd Categori 2 a 3 trwy losgi neu gladdu yn dilyn achos o glefyd hysbysadwy | C5 |
| Erthygl 16(d); Erthygl 19(1)(f) | Erthygl 15; At VI P III A3 | **Awdurdodiad** i waredu gwenyn a sgil-gynhyrchion cadw gwenyn ar y safle trwy losgi neu gladdu | C6 |
| Erthygl 16(h) gydag Erthyglau 12, 13 ac 14 | | **Awdurdodiad** i waredu ar y safle ddeunydd Categori 2 a 3 sy'n dod o ymyriadau llawfeddygol ar anifeiliaid byw | C7 |

**Adran Ch: Awdurdodiadau eraill:-**

| **Cyf. Rheoliad 1069/2009:** | **Cyf. Rheoliad 142/2011:** | **Teitl yr Awdurdodiad (dolenni at yr awdurdodiad)** | **Rhif Awd.** |
|---|---|---|---|
| D/C | Erthygl 21(2);<br>At X P II A4 Rhan I | **Awdurdodiad** i osod ar y farchnad genedlaethol laeth, cynhyrchion yn seiliedig ar laeth neu gynhyrchion sy'n dod o laeth sydd yng Nghategori 3 ac sydd heb eu prosesu'n unol â Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 | Ch1 |
| Erthygl 13(e)(ii) | At V | **Awdurdodiad i gompostio deunydd Categori 2 penodol neu ei drawsffurfio yn** fionwy wedi ei brosesu neu heb ei brosesu'n flaenorol | Ch2 |
| Erthygl 15(1)(b) | Erthygl 9;<br>At IV P III G(3) | **Awdurdodiad** i ddefnyddio dulliau prosesu a gymeradwywyd cyn 4 Mawrth 2011 dan Bennod II, Atodiad V Rheoliad UE 1774/2002 | Ch3 |
| Erthygl 15(1)(b) | Erthygl 8;<br>At IV P IV F(2) (e) | **Awdurdodiad** i symud braster sy'n dod o ddeunydd Categori 1 a 2 i safleoedd eraill i'w hylosgi | Ch4 |
| Erthygl 15(1)(c) | Erthygl 10(3);<br>At V P III A2 (1) | **Awdurdodiad** i ddefnyddio paramedrau eraill ar gyfer trawsffurfio sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid mewn safleoedd bionwy a chompostio | Ch5 |
| Erthygl 15(1)(c) | Erthygl 10(3);<br>At V P III A2 (2) a (3) | **Awdurdodiad** i ddefnyddio gofynion penodol eraill ar gyfer trawsffurfio gwastraff arlwyo, cyfuniadau gwastraff arlwyo a deunyddiau eraill a rhai cynhyrchion penodol sy'n dod o anifeiliaid, mewn safleoedd bionwy a chompostio | Ch6 |
| Erthygl 15(1)(i); | Erthygl 22(1);<br>At XI P I | **Awdurdodiad** i ddefnyddio paramedrau prosesau safonedig gwahanol ar gyfer tail wedi'i | Ch7 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 32(1) | A2(c) | brosesu, cynhyrchion sy'n dod o dail wedi'i brosesu a baw ystlumod i'w osod ar y farchnad, ar yr amod y dangosir eu bod yn cadw risgiau biolegol i leiafswm | |
| Erthygl 16(b);<br>Erthygl 17(1) and (2) | Erthygl 11; At VI P I | **Awdurdodiad** i ddefnyddio deunydd Categori 1, 2 a 3 at ddibenion diagnostig, addysgol neu ymchwil, ac i gludo, defnyddio a gwaredu samplau ymchwil a diagnostig | Ch8 |
| Erthygl 16(b);<br>Erthygl 17(2) | Erthygl 12(1);<br>At VI P I A2 | **Awdurdodiad** i gludo, defnyddio a gwaredu samplau masnach ac eitemau i'w harddangos mewn arddangosfeydd a gweithgareddau artistig | Ch9 |
| Erthygl 21(1) | At VIII P I A4 | **Awdurdodiad** i gasglu a chludo tail rhwng dau fan ar yr un fferm, neu rhwng ffermwyr a defnyddwyr o fewn y DU, heb ddogfen fasnachol neu dystysgrif iechyd | Ch10 |
| Erthygl 21(3) | At VIII P III 4 | **Awdurdodiad** i alluogi dogfen fasnachol wahanol i fynd gyda sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sy'n cael eu cludo o fewn y DU | Ch11 |
| Erthygl 23(1)(a) + (4) | Erthygl 20(4); At XIII P VI | **Awdurdodiad** i eithrio gweithredwyr penodol (y rheiny sy'n: trafod/cynhyrchu troffïau hela ayb. trafod/gwaredu samplau ymchwil a diagnostig at ddibenion addysgol; cludo gwlân a blew sych heb ei drin; neu'n defnyddio ychydig bach o ddeunydd Categori 2/3 penodol), rhag y gofyniad i gofrestru | Ch12 |
| Erthygl 40 | Erthygl 24(4); At XIII P V A | **Awdurdodiad** i alluogi safleoedd sy'n trin crwyn, gan gynnwys crwyn wedi'u calchu, i gyflenwi naddion ac ymraniadau i gynhyrchu gelatin i'w ddefnyddio ar gyfer gan anifeiliaid, fel gwrtaith organig neu ddeunydd i wella pridd | Ch13 |
| Erthygl 40 | Erthygl 24(4);<br>At XIII P VII A | **Awdurdodiad** i beidio â sychu plu, rhannau o blu a manblu heb eu trin, os ydynt yn cael eu hanfon yn syth o ladd-dy i safle prosesu | Ch14 |
| D/C | Erthygl 10;<br>At V P III A3(3) | **Awdurdodiad** i weithredwyr gymryd samplau cynrychiadol ar gyfer trawsffurfio neu gompostio ar ôl pasteureiddio a chyn cyfuno gyda deunyddiau nad ydynt yn dod o anifeiliaid | Ch15 |

**Awdurdodiad A1**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* a wnaed ar 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd gan weithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i gyflenwi llaeth tor i ffermydd eraill at ddibenion porthiant:

Yn unol ag **Erthygl 21(2)** a **Phwynt 4, Rhan II, Adran 4, Pennod II, Atodiad X** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cyflenwad at ddibenion porthiant, laeth tor nad yw'n cydymffurfio â'r amodau a osodir ym **Mhwynt B6, Rhan I, Adran 4, Pennod II, Atodiad X** Rheoliad y Comisiwn (EU) rhif 142/2011, ar yr amodau canlynol:

(1) nid yw'r llaeth tor yn dod o fuchesau o wartheg â statws heb TG swyddogol sydd naill ai wedi'u hatal neu eu diddymu, er mwyn atal trosglwyddiad risgiau iechyd, ac

(2) mae'r cyflenwad:

(a) yn cael ei gyflenwi gan ffermwr â fferm yng Nghymru i ffermwr â fferm –

(i) yng Nghymru

(ii) yn Lloegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon ac mae'r awdurdod cymwys priodol wedi galluogi cyflenwad o'r fath dan **Bwynt 4, Rhan II, Adran 4, Pennod II, Atodiad X** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011; neu

(b) yn cael ei gyflenwi i ffermwr â ffarm yng Nghymru gan ffermwr â fferm –

(i) yng Nghymru; neu

(ii) yn Lloegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon ac mae'r awdurdod cymwys priodol wedi galluogi cyflenwad o'r fath dan **Bwynt 4, Rhan II, Adran 4, Pennod II, Atodiad X** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011.

.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad A2**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i Gymru mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i gasglu deunydd Categori 3 a deunydd Categori 2 penodol a'u defnyddio fel porthiant ar gyfer anifeiliaid sw:

Yn unol ag **Erthyglau 16(c) ac 18(1)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 fel y'u darllenir gydag **Erthygl 13** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi trwy randdirymiad **Erthyglau 13 a 14** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 i weithredwyr wedi'u cofrestru dan Erthygl 23 o'r Rheoliad hwnnw, gasglu a defnyddio fel porthiant i anifeiliaid sw yn unol ag **Erthygl 18(1)(a)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, y canlynol:

- Deunydd Categori 2, ar yr amod ei fod yn dod o anifeiliaid sydd heb gael eu lladd neu heb farw o ganlyniad i bresenoldeb neu amheuaeth o bresenoldeb clefyd y gellir ei drosglwyddo i fodau dynol neu anifeiliaid, ac y bodlonir gofynion **Adran 1, Pennod II, Atodiad VI** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011; a
- Deunydd Categori 3, ar yr amod y bodlonir gofynion **Adran 1, Pennod II, Atodiad VI** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 25 Mehefin 2012 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad A3**

(Dirymwyd Awdurdodiad A3 ym mis Mai 2013)

**Awdurdodiad A4**

**Gweinidogion Cymru,** fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

• Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

**Awdurdodiad i gasglu deunydd Categori 3 a deunydd Categori 2 penodol a'u defnyddio fel porthiant ar gyfer ymlusgiaid ac adar ysglyfaethus nad ydynt yn rhai gwyllt ac eithrio anifeiliaid sw neu syrcas:**

Yn unol ag **Erthyglau 16(c) a 18** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi trwy randdirymiad **Erthyglau 13 a 14** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 i weithredwyr wedi'u cofrestru dan Erthygl 23 o'r Rheoliad hwnnw gasglu a defnyddio fel porthiant ar gyfer ymlusgiaid ac adar ysglyfaethus nad ydynt yn rhai gwyllt, ac eithrio anifeiliaid sw neu syrcas, yn unol ag **Erthygl 18(1)(c)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, y canlynol:

• Deunydd Categori 2, ar yr amod ei fod yn dod o anifeiliaid sydd heb gael eu lladd nac wedi marw o ganlyniad i bresenoldeb neu amheuaeth o bresenoldeb clefyd y gellir ei drosglwyddo i fodau dynol neu anifeiliaid;

• Deunydd Categori 2, ar yr amod nad ydyw'n dod o anifeiliaid sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau ynysu ôl-fewnforio ar hyn o bryd, yn unol ag Atodiad VIII Rheoliad (EC) Rhif 798/2008, a

• Deunydd Categori 3 ar yr amod y cydymffurfir ag amodau Adran 1, Pennod I, Atodiad VIII Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011, ac eithrio defnyddwyr terfynol, i sicrhau y rheolir risgiau i iechyd y cyhoedd ac i iechyd anifeiliaid.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 25 Mehefin 2012 (diweddarwyd 23 Hydref 2013 ac 8 Rhagfyr 2017)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad A5**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i gasglu deunydd Categori 3 a'i ddefnyddio fel porthiant ar gyfer anifeiliaid gwyllt:

Yn unol ag **Erthyglau 16(c) a 18(1)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi trwy randdirymiad **Erthygl 14** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 y defnydd o sgil-gynhyrchion anifeiliaid Categori 3 fel porthiant ar gyfer anifeiliaid gwyllt, ac eithrio baeddod gwyllt, yn unol ag **Erthygl 18(1)(e)** Rheoliad Rhif 1069/2009, ar yr amod y caiff ei gyflawni mewn ffordd sy'n sicrhau na all fermin ac anifeiliaid fferm gael mynediad at y deunydd. Yn ychwanegol at hyn, mae gofyn i weithredwyr sy'n bwriadu sefydlu gorsaf fwydo i fwydo deunydd Categori 3 i anifeiliaid ysglyfaethus gwyllt gofrestru dan Erthygl 23 Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 a dylent hysbysu eu swyddfa Gwasanaethau Maes Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol leol ynglŷn â hynny.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad A6**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* a wnaed ar 25 Chwefror 2011, fel y diwygiwyd, gan weithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

**Awdurdodiad i gasglu deunydd Categori 3 a deunydd Categori 2 penodol a'u defnyddio fel porthiant ar gyfer cŵn o letyau cŵn cydnabyddedig neu gnudoedd o gŵn hela:**

Yn unol ag Erthyglau 16(c) a 18(1) Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 fel y'u darllenir gydag Erthygl 13 Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn awdurdodi trwy randdirymiad Erthyglau 13 a 14 Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 i weithredwyr wedi'u cofrestru dan Erthygl 23 o'r Rheoliad hwnnw gasglu a defnyddio fel porthiant ar gyfer cŵn o letyau cŵn cydnabyddedig neu gnudoedd o gŵn hela, yn unol ag Erthygl 18(1)(f) Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, y canlynol:

• Deunydd Categori 2, ar yr amod ei fod yn dod o anifeiliaid sydd heb gael eu lladd neu heb farw o ganlyniad i bresenoldeb neu amheuaeth o bresenoldeb clefyd y gellir ei drosglwyddo i fodau dynol neu anifeiliaid, ac y bodlonir gofynion Adran 1, Pennod II, Atodiad VI Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011. Yn benodol;

• mae'r porthiant yn cynnwys deunydd cig carcas ac esgyrn yn unig, heb gynnwys yr offal canlynol: afu, arennau, y llwybr resbiradu gan gynnwys yr ysgyfaint a'r tracea, y galon, y ddueg, pancreas, llwybr y bibell gastroberfeddol (gan gynnwys stumogau), omentwm, y gadair a'r organau atgenhedlu;

• caiff y cŵn eu trin yn rheolaidd am Echinococcus sp. yn unol ag argymhellion gweithiwr proffesiynol o'r filfeddygfa a chedwir cofnodion unrhyw driniaeth o'r fath am gyfnod o ddwy flynedd, o leiaf, a byddant ar gael i'w harchwilio gan yr Awdurdod Cymwys ar gais.

• pan fydd y ffermwr yn dweud bod carcasau'n dod o ddaliadau lle mae'r risg o TB(1) yn uwch, mae gweithredwyr yn cynnal archwiliad ychwanegol trwy edrych ar y nodau lymff yn y pen/gwddf, a chyffwrdd â nhw, ac yn archwilio'r frest a'r ysgyfaint am arwyddion o dwbercwlosis (TB) buchol mewn gwartheg trig. Rhaid adrodd yn ddi-oed ynghylch unrhyw amheuaeth o TB i swyddfa leol Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a dylid cadw'r organau neu'r rhannau o'r carcas yr effeithiwyd arnynt er mwyn eu harchwilio ac er mwyn i arolygydd milfeddygol gasglu samplau fel sy'n ofynnol dan Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010 (fel y diwygiwyd)

(1) Diffinnir fel daliadau sydd dan gyfyngiadau ar symudiad ar y pryd o ganlyniad i achos o TB buchol, neu sydd wedi'u rhyddhau rhag cyfyngiadau o'r fath (h.y. achos wedi'i gau) yn ystod y 12 mis blaenorol

• Deunydd Categori 3, ar yr amod y bodlonir gofynion Adran 1, Pennod II, Atodiad VI Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011

Mae’r hwn awdurdodiad yn berthnasol yng Nghymru

**Dyddiedig: 8 Rhagfyr 2017**

* Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 OS: 2014 Rhif 517 (Cy. 60)

**Awdurdodiad A7**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i gasglu deunydd Categori 3 a deunydd Categori 2 penodol a'u defnyddio fel porthiant ar gyfer cŵn a chathod mewn lletyau anifeiliaid:

Yn unol ag **Erthyglau 16(c) a 18(1)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 fel y'u darllenir gydag **Erthygl 13** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi, trwy randdirymiad **Erthyglau 13 a 14** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, i weithredwyr wedi'u cofrestru dan Erthygl 23 yn y Rheoliad hwnnw gasglu a defnyddio fel porthiant ar gyfer cŵn a chathod mewn lletyau, yn unol ag **Erthygl 18(1)(g)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, y canlynol:

- Deunydd Categori 2, ar yr amod ei fod yn dod o anifeiliaid sydd heb gael eu lladd neu heb farw o ganlyniad i bresenoldeb neu amheuaeth o bresenoldeb clefyd y gellir ei drosglwyddo i fodau dynol neu anifeiliaid, ac y bodlonir gofynion **Adran 1, Pennod II, Atodiad VI** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011; a
- Deunydd Categori 3, ar yr amod y bodlonir gofynion **Adran 1, Pennod II, Atodiad VI** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 25 Mehefin 2012 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad A8**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i gasglu deunydd Categori 3 a deunydd Categori 2 penodol a'u defnyddio fel porthiant i gynrhon a mwydod a ddefnyddir fel abwyd pysgota:

Yn unol ag **Erthyglau 16(c) a 18(1)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 fel y'u darllenir gydag **Erthygl 13** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi, trwy randdirymiad **Erthyglau 13 a 14** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, i weithredwyr wedi'u cofrestru dan Erthygl 23 yn y Rheoliad hwnnw gasglu a defnyddio fel porthiant i gynrhon a mwydod a ddefnyddir fel abwyd pysgota, yn unol ag **Erthygl 18(1)(h)** Rheoliad Rhif 1069/2009, y canlynol:

- Deunydd Categori 2, ar yr amod ei fod yn dod o anifeiliaid sydd heb gael eu lladd neu heb farw o ganlyniad i bresenoldeb neu amheuaeth o bresenoldeb clefyd y gellir ei drosglwyddo i fodau dynol neu anifeiliaid, ac y bodlonir gofynion **Adran 1, Pennod II, Atodiad VI** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011; a
- Deunydd Categori 3, ar yr amod y bodlonir gofynion **Adran 1, Pennod II, Atodiad VI** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 25 Mehefin 2012 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad A9**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i ddefnyddio fel porthiant ar gyfer anifeiliaid sw ddeunydd Categori 1 sy'n cynnwys anifeiliaid marw neu rannau o anifeiliaid marw ag ynddynt ddeunydd risg penodedig a deunydd sy'n dod o anifeiliaid sw:

Yn unol ag **Erthyglau 16(c) a 18(2)(a)** Rheoliad (EC) 1069/2009 fel y'u darllenir gydag **Erthygl 14(2)** Rheoliad y Comisiwn Rhif 142/2011, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi, trwy randdirymiad **Erthygl 12** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, i weithredwyr wedi'u cofrestru dan Erthygl 23 yn y Rheoliad hwnnw fwydo deunydd Categori 1, sy'n cynnwys cyrff cyfan neu rannau o gyrff anifeiliaid marw ag ynddynt ddeunydd risg penodedig adeg ei waredu (fel y darperir ar ei gyfer yn **Erthygl 8(b)(ii)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009), a deunydd sy'n dod o anifeiliaid sw, i anifeiliaid sw, ar yr amodau canlynol:

(a) mae'r gweithredwr sy'n gyfrifol am fwydo wedi derbyn awdurdodiad dan **Adran 4, Pennod II yn Atodiad VI** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011; a

(b) cydymffurfir â'r amodau yn yr Adran honno.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 25 Mehefin 2012 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad A10**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i fwydo deunydd Categori 3 i anifeiliaid anwes:

Yn unol ag **Erthygl 16(g)** Rheoliad (EC) 1069/2009 mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi, trwy randdirymiad **Erthygl 14** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, y defnydd o ddeunydd Categori 3 i fwydo anifeiliaid anwes** ar gyfer gweithredwyr wedi'u cofrestru dan Erthygl 23 yn y Rheoliad hwnnw, ar yr amod y cydymffurfir â'r amodau canlynol:

(a) Gellir defnyddio deunydd Categori 3 sy'n addas i bobl ei fwyta, ond nad oes bwriad i bobl ei fwyta, yn unig;

(b) Rhaid bod y deunydd Categori 3, os yw'n dod o ladd-dai /safleoedd torri, wedi cael ei gadw ar wahân i sgil-gynhyrchion anifeiliaid eraill nad ydynt yn cyfateb i'r disgrifiad ym Mhwynt (a) uchod, yn y lladd-dy/safle torri;

(c) Pan fydd y deunydd Categori 3 yn cael ei gyflenwi, rhaid ei fod at ddefnydd personol yn unig, h.y. i fwydo anifeiliaid anwes personol yn unig;

(ch) Mae'r sawl sy'n defnyddio'r deunydd Categori 3 i fwydo anifeiliaid anwes, yn ei gael o'r lle y cynhyrchwyd y deunydd; a

(d) Rhaid i'r lladd-dy/safle torri sy'n cyflenwi'r deunydd Categori 3, a'r sawl sy'n ei brynu, gadw cofnod am ddwy flynedd, a allai fod ar ffurf dogfen fasnachol, o bob gwerthiant o'r deunydd, gan gynnwys faint gafodd ei werthu a rhif cofrestru'r prynwr dan **Erthygl 23** Rheoliad (EC) 1069/2009, a sicrhau ei fod ar gael i'w archwilio gan yr Awdurdod Cymwys ar gais.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 25 Mehefin 2012 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Diffinnir "anifeiliaid anwes" gan Reoliad (EC) Rhif 1069/2009 fel "unrhyw anifail sy'n perthyn i rywogaeth sydd fel arfer yn cael ei maethu a'i chadw, ond nid ei bwyta, gan bobl, at ddibenion heblaw ffermio" ac felly nid yw'n cynnwys e.e. ieir a moch.

**Awdurdodiad A11**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

### Awdurdodiad amodau ar gyfer defnyddio anifeiliaid dyfrol ac infertebratau tir a dyfrol (a) fel porthiant ar gyfer infertebratau dyfrol neu bysgod sy'n cael eu ffermio a (b) fel abwyd pysgota ar gyfer anifeiliaid dyfrol ac infertebratau dyfrol:

Yn unol â **Phwynt 2 ym Mhennod III Atodiad X** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 mae Gweinidogion Cymru yn pennu'r amodau ar gyfer y defnydd o anifeiliaid dyfrol ac infertebratau dyfrol a thir sy'n cydymffurfio â **rhannau (f),(i),(j) a (l) Erthygl 10** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 ar gyfer:

**(a) porthiant ar gyfer infertebratau dyfrol neu bysgod sy'n cael eu ffermio**:

- Gellir defnyddio anifeiliaid dyfrol ac infertebratau dyfrol sy'n anifeiliaid dyfrol (fel y diffinnir) fel porthiant ar gyfer infertebratau dyfrol neu bysgod sy'n cael eu ffermio, ar yr amod eu bod yn cael eu prosesu yn unol â **Phwynt 1(c), Pennod III yn Atodiad X** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011;
- Gellir defnyddio infertebratau dyfrol ac infertebratau tir eraill fel porthiant ar gyfer infertebratau dyfrol neu bysgod sy'n cael eu ffermio, heb eu prosesu, ar yr amod fod y gweithredwr yn cydymffurfio â'r amodau canlynol i atal risgiau annerbyniol o drosglwyddo clefydau trosglwyddadwy at fodau dynol neu anifeiliaid:

  1) rhaid trafod y deunydd porthiant ar wahân a'i storio i ffwrdd oddi wrth fwyd, porthiant anifeiliaid a sgil-gynhyrchion eraill anifeiliaid nad ydynt wedi'u hawdurdodi at y diben hwn, er mwyn atal croes-heintiad;
  2) ni ddylai unrhyw anifeiliaid fferm eraill gael mynediad at y deunydd porthiant; a
  3) rhaid gwaredu unrhyw ddeunydd porthiant heb ei ddefnyddio yn unol â'r rheoliadau uchod.

**(b) abwyd pysgota:**

- Gellir defnyddio anifeiliaid dyfrol, infertebratau dyfrol ac infertebratau tir fel abwyd pysgota, gan gynnwys abwyd ar gyfer infertebratau dyfrol, heb eu prosesu, ar yr amod fod y gweithredwr yn cydymffurfio â'r amodau canlynol i atal risgiau annerbyniol o drosglwyddo clefydau trosglwyddadwy at fodau dynol neu anifeiliaid:

  1) rhaid trafod y deunydd a ddefnyddir fel abwyd ar wahân a'i storio i ffwrdd oddi wrth fwyd, porthiant anifeiliaid a sgil-gynhyrchion eraill anifeiliaid nad ydynt wedi'u hawdurdodid at y diben hwn, er mwyn atal croes-heintiad;
  2) ni ddylai unrhyw anifeiliaid fferm eraill gael mynediad at yr abwyd;

3) lle mae’r deunydd i’w ddefnyddio fel abwyd pysgota ar gyfer pysgod sy’n cael eu ffermio, ni ddylai’r abwyd fod o’r un rhywogaeth â’r pysgod y bwriedir iddo’u dal; a
4) rhaid gwaredu unrhyw abwyd heb ei ddefnyddio yn unol â’r rheoliadau uchod.

**Mae’r awdurdodiad hwn yn berthnasol yng Nghymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad B1**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cygor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i osod rhai deunyddiau Categori 2 a 3 ar y tir heb eu prosesu:

Yn unol ag **Erthygl 13(f)** a **14(l)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 ac **Erthygl 5(2) a Phennod II, Atodiad II** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi y gellir defnyddio'r sgil-gynhyrchion anifeiliaid canlynol:

(a) Tail Categori 2, cynnwys y llwybr treulio sydd wedi'i wahanu oddi wrth y llwybr treulio, llaeth, cynhyrchion yn seiliedig ar laeth a llaeth tor; a

(b) Llaeth amrwd, llaeth tor a chynhyrchion sy'n deillio ohonynt, sydd yng Nghategori 3

ar y tir fel gwrtaith/deunyddiau i wella pridd organig heb eu prosesu, ar yr amodau canlynol:

1) cedwir at y cyfnod aros o 21 diwrnod, o leiaf, y cyfeirir ato yn **Erthygl 11(1)(c)** Rheoliad (EC) 1069/2009 ar gyfer yr holl sgil-gynhyrchion anifeiliaid uchod, ac eithrio tail; a

2) cydymffurfir ag unrhyw gyfyngiadau a gyflwynir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag achos o glefyd neu amheuaeth o glefyd.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad B2**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad – pennu amodau ar gyfer defnyddio plisg wy ar y tir:

Yn unol ag **Erthygl 14(h)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 mae Gweinidogion Cymru yn pennu'r amodau ar gyfer defnyddio'r plisg wy o fewn yr Erthygl honno.

Gellir rhoi plisg wy o fewn yr Erthygl honno ar y tir fel gwrtaith/deunydd i wella tir organig ar yr amodau canlynol:

(a) cydymffurfir â gofynion **Erthygl 17** ac **Adran 4, Pennod IV, Atodiad VIII** Rheoliad y Comisiwn (EU) 142/2011 o ran cadw cofnodion, ynghyd â'r amodau canlynol:

(b) gellir olrhain yr wyau yn ôl at heidiau dodwy sydd wedi'u samplo gan y gweithredwr a'r Awdurdod Cymwys dan ofynion Rhaglen Genedlaethol Rheoli Salmonela mewn heidiau sy'n dodwy yn y DU (neu raglenni cywerth mewn gwledydd tu allan i'r DU); a

(c) cafodd yr wyau eu dodwy gan heidiau a brofodd yn negyddol am y serofarau Salmonela y gosodir targed fel Cymuned ar gyfer eu gostwng yn Rheoliad (EC) 1168/2006 ac yn unol â'r protocol profi a nodir yn Rhaglen Genedlaethol Rheoli Salmonela yn ystod cyfnod dodwy'r heidiau ac nid yw'r heidiau neu'r wyau a gynhyrchir gan yr heidiau'n ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau a osodwyd dan ddeddfwriaeth genedlaethol neu ddeddfwriaeth yr UE; a

(ch) malwyd yr wyau trwy gywasgiad ac mae'r cynnwys hylif sy'n llifo'n rhydd wedi'i waredu trwy bwysau a draenio, neu trwy rym allgyrchol, fel mai dim ond y plisg sydd ar ôl i'w roi ar y tir, i bob pwrpas. Rhaid bod y system/dull a ddefnyddiwyd yn gallu bodloni'r gofyniad bod yn rhaid i gyfanswm pwysau ffres y plisg wy wedi'u trin (sy'n medru cadw cynnwys lleithder o tua 25%, os caiff ei fesur trwy sychu mewn ffwrn) gynnwys llai na 4% o hylif sy'n llifo'n rhydd, fesul pwysau, h.y. melyn wy ac albwmen, sydd wedi draenio i waelod y swp, ar ôl sefyll am 1 awr. Rhaid bod gan y busnes dystiolaeth ddogfennol fod y broses yn cydymffurfio â'r gofyniad technegol hwn.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd ddiwethaf ar 19 Awst 2014)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad B3**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i ddefnyddio deunyddiau Categori 2 a 3 i baratoi paratoadau biodeinamig a'u rhoi ar y tir:

Yn unol ag **Erthygl 16(f)** Rheoliad (EC) 1069/2009 mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi, trwy randdirymiad **Erthyglau 13 a 14** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, y defnydd o ddeunyddiau Categori 2 a 3 i baratoi a gosod ar y tir baratoadau biodeinamig fel y cyfeirir atynt yn **Erthygl 12(1)(c)** Rheoliad (EC) Rhif 834/2007 gan weithredwyr wedi'u cofrestru dan Erthygl 23 Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad B4**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad ar gyfer y cydrannau i'w cymysgu gyda gwrteithiau organig neu ddeunyddiau organig i wella pridd:

Yn unol ag **Erthygl 32(1)(d)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 ac **Erthygl 22(3)** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi ar gyfer gweithredwyr wedi'u cofrestru dan Erthygl 23 Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, y cydrannau canlynol i'w cymysgu gyda gwrteithiau organig a deunydd gwella tir organig i'w gosod ar y tir, ac sydd wedi'u cynhyrchu o:

- Flawd Cig ac Esgyrn sy'n dod o sgil-gynhyrchion anifeiliaid Categori 2;
- Protein Anifeiliaid wedi'i Brosesu sy'n dod o unrhyw ddeunydd Categori 3 ac eithrio deunydd y cyfeirir ato yn **Erthygl 10(n), (o) a (p)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009

yn unol â'r meini prawf a nodir ym **Mhwyntiau 2 a 3, Adran I, Pennod II Atodiad XI** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011:

**cydrannau ar gyfer cynhyrchion sych**:

(1) Naddion pren (nid sglodion rhisgl), yn amodol ar y canlynol:
- a) Dylid sgrinio naddion pren a'u ffiltro i waredu unrhyw ddarnau mawr o bren, corffynnau estron a llwch;
- b) Dylai'r pren y mae'n dod ohono fod o goed glân ac ni ddylai fod wedi cael ei drin gyda phaent na deunydd cadw ayb;
- c) Ni ddylai'r cynnyrch gael effaith niweidiol ar yr amgylchedd;
- ch) Dylai pen-ddefnyddwyr ystyried effaith y cynnyrch ei hun ar lefelau nitrogen y pridd yn erbyn y nitrogen a ddefnyddir gan naddion pren wrth iddynt bydru;
- d) Lefel cynhwysiant isaf >2% yn y cynnyrch terfynol.

(2) Pelenni/graean/sglodion calchfaen yn amodol ar y canlynol:
- a) Rhaid eu bod yn 2-5mm mewn diamedr;
- b) Lefel cynhwysiant isaf >2% yn y cynnyrch terfynol.

(3) Pelenni gwrtaith anorganig, yn amodol ar y canlynol:
- a) Rhaid eu bod yn 2-5mm mewn diamedr;
- b) Lefel cynhwysiant isaf >2% yn y cynnyrch terfynol.

**cydrannau ar gyfer cynhyrchion hylif:**

(1) **Ar gyfer unrhyw waed wedi'i brosesu** – calch hydradol (toddiant calsiwm deuhydrocsid mewn dŵr) neu hydoddiannau 1-1.5% o soda brwd gyda digon i gynhyrchu lefelau pH o 9-10 yn y cynnyrch terfynol.

(2) **Ar gyfer daliant blawd pysgod organig** – Dwramin glas FCF 250% wedi'i wanedu i hydoddiant stoc o 2.5% (25kg mewn 1000 litr o ddŵr), ac yna 10ml o'r hydoddiant stoc hwn i'w ychwanegu at bob litr o'r daliant blawd pysgod organig.

**Sylwer:**
Bydd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol yn ystyried deunyddiau eraill i'w defnyddio fel cydrannau, ar yr amod y bodlonir y meini prawf angenrheidiol ar gyfer eu derbyn. Am wybodaeth bellach, cysylltwch â'r Prif Swyddog Milfeddygol (Lead Veterinary Officer), National Feed Audit, AHVLA, Kendal Rd, Harlescott, Shrewsbury, SY1 4HD (Rhif Ffôn: 01785 231900).

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 25 Mehefin 2012 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

## Awdurdodiad B5

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

# Awdurdodiad i ddefnyddio ar y tir weddillion treulio sy'n deillio o drawsffurfio glyserin Categori 1/2 a gafwyd o'r broses biodiesel yn fionwy:

Yn unol ag **Erthygl 9 (c) ac Atodiad IV, Pennod IV, Adran 3, Pwynt 2(b)(iii)** Rheoliad (EU) Rhif 142/2011, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi gosod ar y tir weddillion treulio a gynhyrchwyd trwy drawsnewid yn fionwy y glyserin sy'n dod o sgil-gynhyrchion anifeiliaid Categori 1 a 2 a ddefnyddiwyd yn y broses o gynhyrchu biodiesel, ar yr amod fod y sgil-gynhyrchion anifeiliaid hynny wedi'u prosesu'n flaenorol yn unol â dull prosesu 1 (sterileiddio trwy wasgedd) fel y nodir ym **Mhennod III, Atodiad IV** Rheoliad (EU) Rhif 142/2011.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn berthnasol yng Nghymru**

**Dyddiedig 24 Gorffennaf 2014**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 OS 2014 Rhif 517(Cy.60)

## Awdurdodiad B6

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

# Awdurdodiad yr amodau ar gyfer taenu ar y tir gregyn pysgod cregyn wedi'u coginio sydd yng Nghategori 3 gyda meinwe feddal a'r cnawd ynghlwm:

Yn unol ag **Erthygl 14(h)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi y gellir defnyddio cregyn Categori 3 o bysgod cregyn wedi'u coginio (gan gynnwys cramenogion a molysgiaid) â meinwe feddal a chnawd ynghlwm, nad ydynt yn dangos unrhyw arwydd o glefyd y gellir ei drosglwyddo i fodau dynol neu anifeiliaid (y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon fel **"cregyn pysgod cregyn"**), ar y tir fel gwrtaith organig neu ddeunydd organig i wella tir heb brosesu neu drin[1] pellach, ar yr amod y cydymffurfir â'r amodau canlynol i sicrhau y rheolir risgiau i iechyd y cyhoedd ac i iechyd anifeiliaid:

1) Rhaid bod y cregyn pysgod cregyn yn dod o bysgod cregyn sydd wedi'u coginio[2] mewn safle prosesu cynhyrchion pysgodfa a gymeradwywyd dan **Erthygl 4** Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 ac sy'n bodloni gofynion **Atodiad 1** Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2073/2005.

2) Rhaid bod cymaint o'r feinwe feddal a'r cnawd ag sy'n rhesymol ymarferol wedi'i dynnu oddi ar y cregyn pysgod cregyn fel nad oes mwy na 40% o solidau anweddol ar ôl[3].

3) Rhaid malu'r cregyn pysgod cregyn ond nid eu gwasgu'n ddeunydd powdwr.

4) Pan fydd angen storio'r cregyn pysgod cregyn cyn eu taenu ar y tir, rhaid eu storio mewn ffordd sy'n atal mynediad gan anifeiliaid ac adar, gan gynnwys pob anifail a ffermir.

5) Rhaid chwistrellu'r deunydd cregyn pysgod cregyn mâl neu ei ymgorffori fel arall i'r pridd, mewn ffordd sy'n sicrhau na all anifeiliaid ac adar gael mynediad ato e.e. trwy daenu'r deunydd ar y tir a'i aredig i mewn yn ddi-oed.

6) Wedi rhoi'r cregyn pysgod cregyn mâl ar y tir, rhaid i ddefnyddwyr gadw at y cyfnodau aros canlynol:

    a) 21 diwrnod, o leiaf, cyn i anifeiliaid fferm, ac eithrio moch, bori neu borthi ar borfa a dorrwyd oddi ar y tir hwnnw (**Erthygl 11(1)(c)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009);
    b) 60 diwrnod, o leiaf, cyn gadael i foch gael mynediad at y tir hwnnw neu gael eu bwydo â phorfa wedi ei thorri oddi ar y tir hwnnw (**rheoliad 5** Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014)

Bydd angen i ddefnyddwyr cregyn pysgod cregyn gydymffurfio ag amodau amgylcheddol ar gyfer taenu gwastraff ar dir, ac fe'u cynghorir i gysylltu ag Asiantaeth yr Amgylcheddol fel sy'n briodol.

**Mae’r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 24 Mehefin 2014**

**Nodiadau ar y termau a ddefnyddir yn yr Awdurdodiad hwn:**

[1] ystyr **“prosesu”** yw defnyddio’r dulliau a nodir yn **Atodiad IV, Pennod III** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 ac ystyr **“triniaeth”** yw defnyddio dulliau eraill a nodwyd yn Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011, megis compostio a threulio anaerobig, fel y diffiniwyd yn **Atodiad V** i’r Rheoliad hwnnw.

[2] ystyr **“wedi’i goginio”** yw y cafodd ei gynhesu am gyfnod penodol o amser i ostwng i lefel dderbyniol y risgiau i iechyd y cyhoedd sy’n codi o’r deunydd, yn unol ag egwyddorion HACCP a nodwyd yn Rheoliad (EC) Rhif 852/2004. Rhaid ei fod yn cael ei wneud fel rhan o’r gweithgarwch cynhyrchu bwyd arferol ar y safle, dan y mesurau rheoli a nodwyd yn Rheoliad (EC) Rhif 853/2004.

[3] **“solidau anweddol”** yw mesuriad yn y labordy o gynnwys meinwe feddal cregyn cramenogion. Caiff y gragen gyda’i chnawd gweddilliol ei sychu ar 105°C hyd nes iddi gyrraedd pwysau cyson. Yna caiff y gweddill sydd wedi’i sychu, ei gynnau a phennir y solidau anweddol a gollwyd yn ôl y gostyngiad mewn pwysau.

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad C1**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i waredu bwyd anifeiliaid anwes Categori 1 penodol a bwyd anifeiliaid anwes Categori 3 a hen fwydydd mewn safle tirlenwi awdurdodedig:

Yn unol ag **Erthygl 7** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi, trwy randdirymiad **Erthyglau 12 a 14(c)** Rheoliad (EC) 1069/2009, waredu'r deunyddiau Categori 1 a 3 canlynol mewn safle tirlenwi awdurdodedig:

(a) bwyd anifeiliaid anwes a fewnforiwyd neu fwyd anifeiliaid a gynhyrchwyd o ddeunyddiau wedi'u mewnforio, o ddeunydd Categori 1 y cyfeirir ato yn **Erthygl 8(c**) Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009;

(b) deunydd Categori 3 y cyfeirir ato yn **Erthygl 10(f) a (g)** (gan gynnwys bwyd anifeiliaid anwes a hen fwydydd) Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, ar yr amodau canlynol:

   (i) ni fu unrhyw ddeunyddiau o'r fath mewn cyswllt ag unrhyw rai o'r sgil-gynhyrchion anifeiliaid y cyfeirir atynt yn **Erthyglau 8 a 9 ac Erthygl 10(a) i (e) a (h) i (p)** yn y Rheoliad hwnnw;

   (ii) adeg eu gwaredu, mae'r deunyddiau:

      – y cyfeiriwyd atynt yn **Erthygl 10(f)** yn y Rheoliad hwnnw wedi cael eu prosesu fel y diffiniwyd yn **Erthygl 2(1)(m)** Rheoliad (EC) Rhif 852/2004; ac

      – y cyfeiriwyd atynt yn **Erthygl 10(g)** yn y Rheoliad hwnnw wedi cael eu prosesu yn unol â **Phennod II Atodiad X** neu yn unol â'r gofynion penodol ar gyfer bwyd anifeiliaid anwes a nodwyd ym **Mhennod II Atodiad XIII** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011; a

   (iii) nid yw gwaredu deunyddiau o'r fath yn risg i iechyd y cyhoedd nac i iechyd anifeiliaid.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad C2**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i waredu anifeiliaid anwes ac equidae trig trwy gladdu:

Yn unol ag **Erthyglau 16(d) ac 19(1)(a)** Rheoliad (EC) 1069/2009 fel y'u darllenir gydag **Erthygl 15** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi, trwy randdirymiad **Erthyglau 12, 13, 14 a 21** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, gladdu anifeiliaid anwes ac equidae trig:

(a) ar y safle y daeth cynhyrchion o'r fath ohonynt;

(b) mewn safle tirlenwi awdurdodedig; neu

(c) ar gyfer gweithredwyr wedi'u cofrestru dan Erthygl 23 Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, ar safle sy'n bodloni gofynion **Pwynt 1(c), Adran 1, Pennod III, Atodiad VI** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011;

ar yr amod y cydymffurfir â'r amodau ym **Mhwyntiau 3 a 4 yn Adran 1, Pennod III, Atodiad VI** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad C3**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i waredu deunydd Categori 1 penodol a deunyddiau Categori 2 a 3 mewn ardaloedd anghysbell trwy gladdu neu ddulliau eraill:

Yn unol ag **Erthyglau 16(d) a 19(1)(b)** Rheoliad (EC) 1069/2009 fel y'u darllenir gydag **Erthygl 15** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi, trwy randdirymiad **Erthyglau 12, 13, 14 a 21** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, warediad trwy gladdu neu losgi ar y safle neu trwy ddull arall, ddeunydd Categori 1 yn **Erthygl 8(a)(v) a (b)(ii)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, deunydd Categori 2 a deunydd Categori 3, mewn ardaloedd anghysbell** ar yr amod y cydymffurfir ag amodau **Adran 1, Pennod III, Atodiad VI** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Diffinnir ardaloedd anghysbell o Gymru yn Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 ac ar hyn o bryd yr ardaloedd hynny yw Ynys Enlli, Ynys Bŷr, Ynys Dewi ac Ynys Echni.

**Awdurdodiad C4**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â’r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a’r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy’n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a’r Cyngor

## Awdurdodiad i waredu deunydd Categori 1 penodol a deunyddiau Categori 2 a 3 trwy gladdu neu ddulliau eraill, lle mae mynediad yn anodd am resymau daearyddol, hinsawdd neu drychineb naturiol:

Yn unol ag **Erthyglau 16(d) a 19(1)(c)** Rheoliad (EC) 1069/2009 fel y’u darllenir gydag **Erthygl 15** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi, trwy randdirymiad **Erthyglau 12, 13, 14 a 21** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, waredu trwy gladdu neu losgi ar y safle, neu trwy ddull arall, ddeunydd Categori 1 yn Erthygl 8(b)(ii) Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 a deunydd Categori 2 a 3 mewn ardaloedd lle mae mynediad bron yn amhosib neu lle buasai mynediad yn bosib dim ond dan amgylchiadau sy’n gysylltiedig â rhesymau daearyddol neu hinsawdd, neu oherwydd trychineb naturiol, lle buasai’n risg i iechyd a diogelwch y sawl sy’n casglu’r deunydd neu lle buasai mynediad yn gofyn am ddefnyddio dulliau anghymesur o gasglu, ar yr amod y cydymffurfir ag amodau **Adran 1, Pennod III, Atodiad VI** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011.

**Mae’r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad C5**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i waredu deunydd Categori 1 penodol a deunydd Categori 2 a 3 trwy losgi neu gladdu yn dilyn achos o glefyd hysbysadwy:

Yn unol ag **Erthyglau 16(d) a 19(1)(e)** Rheoliad (EC) 1069/2009 fel y'u darllenir gydag **Erthygl 15** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi, trwy randdirymiad **Erthyglau 12, 13, 14 a 21** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, warediad trwy gladdu neu losgi ar y safle ddeunydd Categori 1, ac eithrio deunydd yn Erthygl 8(a)(i) Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 (darnau cyrff cyfan a phob rhan o'r corff gan gynnwys crwyn anifeiliaid dan amheuaeth o fod wedi'u heintio gyda TSE yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 neu lle cadarnhawyd TSE yn swyddogol), deunydd Categori 2 a 3, mewn achos o glefyd hysbysadwy, petai ei gludo at y safle agosaf a gymeradwywyd ar gyfer prosesu neu waredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn cynyddu'r perygl o ledaenu risgiau i iechyd neu, mewn achos eang o glefyd episöotig, buasai'n golygu bod y sefyllfa y tu hwnt i gapasiti safleoedd o'r fath i waredu, ar yr amod y cydymffurfir ag amodau **Adran 1, Pennod III, Atodiad VI** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad C6**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i waredu gwenyn a sgil-gynhyrchion cadw gwenyn ar y safle trwy losgi neu gladdu:

Yn unol ag **Erthyglau 16(d) a 19(1)(f)** Rheoliad (EC) 1069/2009 fel y'u darllenir gydag **Adran 2 o Bennod II yn Atodiad VI** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi, trwy randdirymiad **Erthyglau 13, 14 a 21** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, waredíad trwy gladdu neu losgi gwenyn a sgil-gynhyrchion cadw gwenyn ar y safle ar yr amod y cydymffurfir ag amodau **Adran 3, Pennod III, Atodiad VI** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad C7**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i waredu ar y safle ddeunydd Categori 2 a 3 sy'n dod o ymyriadau llawfeddygol ar anifeiliaid byw:

Yn unol ag **Erthygl 16(h)** Rheoliad (EC) 1069/2009 mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi, trwy randdirymiad **Erthyglau 13 a 14** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, waredu deunydd Categori 2 a 3 (ac eithrio deunydd sy'n ganlyniad i enedigaeth anifeiliaid, er enghraifft ffoetysau a brychau) sy'n ganlyniad i ymyriadau llawfeddygol ar anifeiliaid byw ar y fferm lle cafodd ei gynhyrchu.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad Ch1**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i osod ar y farchnad genedlaethol laeth, cynhyrchion yn seiliedig ar laeth neu gynhyrchion sy'n dod o laeth sydd yng Nghategori 3 ac sydd heb eu prosesu'n unol â Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011:

Yn unol ag **Erthygl 21(2)** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi, trwy randdirymiad **Erthygl 21(1) y** Rheoliad hwnnw, osod ar y farchnad gynhyrchion llaeth, cynhyrchion yn seiliedig ar laeth a chynhyrchion sy'n dod o laeth, sydd yng Nghategori 3, a ddiffinnir yn **Erthyglau 10(e),(f) a (h)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, nad ydynt wedi cael eu prosesu yn unol â gofynion **Rhan I, Adran 4, Pennod II Atodiad X** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â gofynion **Adran 4 Rhan II**.

Awdurdodir sefydliadau prosesu llaeth sydd wedi'u cymeradwyo neu gofrestru, yn unol ag **Erthygl 4** Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 i gyflenwi llaeth, cynhyrchion yn seiliedig ar laeth a chynhyrchion sy'n dod o laeth at y dibenion y cyfeirir atynt ym **Mhwynt 3 yn Rhan II Adran 4, Pennod II yn Atodiad X** os ydynt yn cofrestru at y diben hwn gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad Ch2**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i gompostio deunydd Categori 2 penodol neu ei drawsffurfio yn fionwy wedi ei brosesu neu heb ei brosesu'n flaenorol:

Yn unol ag **Erthygl 13(e)(ii)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 ac **Atodiad V** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 mae Gweinidogion Cymru yn pennu y gellir compostio'r sgil-gynhyrchion anifeiliaid Categori 2 canlynol, neu eu trawsnewid yn fionwy, heb eu prosesu onid yw Gweinidogion Cymru wedi gosod cyfyngiadau ar waith sy'n gwahardd y fath ddeunydd am ei fod yn cyflwyno risg o ledu clefyd trosglwyddadwy difrifol:

- tail, y llwybr treulio a'i gynnwys, llaeth, cynhyrchion yn seiliedig ar laeth, llaeth tor, wyau a chynhyrchion wyau.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn berthnasol yng Nghymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad Ch3**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i ddefnyddio dulliau prosesu a gymeradwywyd cyn 4 Mawrth 2011 dan Bennod II, Atodiad V Rheoliad UE 1774/2002:

Yn unol ag **Erthygl 55** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 a **Rhan G (3), Pennod III, Atodiad IV** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 fel y'u darllenir gydag **Erthygl 9** yn y Rheoliad hwnnw, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi, trwy randdirymiad **rhan G (1), Pennod III, Atodiad IV** y Rheoliad hwnnw, y defnydd o ddulliau prosesu a gymeradwywyd cyn 4 Mawrth 2011 yn unol â **Phennod III, Atodiad V** Rheoliad UE Rhif 1774/2002 (dirymwyd ar y dyddiad hwnnw gan Reoliad (EC) Rhif 1069/2009).

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad Ch4**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i symud braster sy'n dod o ddeunydd Categori 1 a 2 i safleoedd eraill i'w hylosgi:

Yn unol â **Rhan F(2)(e), Adran 2, Pennod IV, Atodiad IV** Rheoliad y Comisiwn Rhif 142/2011 fel y'i darllenir gydag **Erthygl 9** yn y Rheoliad hwnnw, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi, trwy randdirymiad brawddeg gyntaf **Rhan F(2)(e),** y gellir symud braster sy'n dod o ddeunydd Categori 1 a 2 i safleoedd eraill i'w hylosgi ar yr amod y cydymffurfir â'r amodau yn **is-baragraffau (i) a (ii) Rhan F(2)(e), Adran 2, Pennod IV, Atodiad IV** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011, h.y.:

i. mae'r safle y mae'r braster yn mynd iddo wedi'i awdurdodi i wneud y gwaith hylosgi:

ii. mae bwyd neu borthiant sy'n cael ei brosesu mewn safle a gymeradwywyd ar yr un safle yn cymryd lle dan amodau gwahanu llym.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad Ch5**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i ddefnyddio paramedrau eraill ar gyfer trawsffurfio sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid mewn safleoedd bionwy a chompostio:

Yn unol ag **Erthygl 10(3)** a **Phwynt 1 Adran 2, Pennod III, Atodiad V** i Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi, trwy randdirymiad **Pwynt 1, Adran 1, Pennod I, Atodiad V** yn y Rheoliad hwnnw, i weithredwyr a gymeradwywyd dan Erthygl 24 Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 ddefnyddio paramedrau trawsnewid gwahanol i'r rhai safonol ar gyfer bionwy a chompostio, ar yr amod fod y gweithredwr wedi dangos bod y fath baramedrau yn sicrhau lleihad digonol mewn risgiau biolegol a'i fod wedi dangos hyn trwy gamau dilysu sy'n cydymffurfio â **Phwynt 1, Adran 2, Pennod III Atodiad V.**

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

* Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad Ch6**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i ddefnyddio gofynion penodol eraill ar gyfer trawsffurfio gwastraff arlwyo, cyfuniadau gwastraff arlwyo a deunyddiau eraill a rhai cynhyrchion penodol sy'n dod o anifeiliaid, mewn safleoedd bionwy a chompostio:

Yn unol ag **Erthygl 15(2)(a)(ii)** Rheoliad (EC) 1069/2009 ac **Erthygl 10(3)** a **Phwynt 2, Adran 2, Pennod III, Atodiad V** i Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi gweithredwyr a gymeradwywyd dan Erthygl 24 Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, a thrwy randdirymiad **Pwynt 1, Adran 2, Pennod III o Atodiad V,** i ddefnyddio gofynion penodol *eraill* mewn perthynas â:

(1) gwastraff arlwyo a gwastraff arlwyo wedi'i gymysgu gyda deunyddiau ym **Mhwynt 2(b) Adran 2, Pennod III, Atodiad V** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011;

(2) deunydd Categori 3, lle mae gwastraff arlwyo Categori 3:

  (i) yn cael ei ddefnyddio fel y darparwyd ym **Mhwynt 2(a), Adran 2, Pennod III, Atodiad V** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011; neu

  (ii) wedi'i gymysgu yn unol â **Phwynt 2(b)** yn yr Adran honno.

Mae'r gofynion penodol sydd wedi'u hawdurdodi ynghlwm fel **Atodiad A**.

Os mai'r unig ddeunyddiau cychwynnol o darddiad anifeiliaid sy'n cael eu trin mewn safle bionwy neu gompostio a gymeradwywyd yw'r deunyddiau y cyfeirir atynt ym **Mhwynt 2(b), Adran 2, Pennod III, Atodiad V** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 neu gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid y cyfeirir atynt yn **Erthygl 10(g)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, yna gellir defnyddio gofynion penodol eraill i'r rheiny a nodwyd ym **Mhennod III** ar yr amod y cydymffurfir â'r amodau ym **Mhwynt 3, Adran 2, Pennod III Atodiad V**.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn berthnasol i Gymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

* Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Atodiad A i Awdurdodiad Ch6** (diweddarwyd: 22 Ionawr 2013; 24 Hydref 2013)

**Rhan 1:**

**1.** Bydd:

(a) **ardal dderbyn** lle derbynnir sgil-gynhyrchion anifeiliaid heb eu trin (yn cynnwys gwastraff arlwyo). Bydd yr ardal dderbyn hon yn hawdd ei glanhau a'i diheintio a bydd ynddi le neu gynhwysydd caeedig y gellir ei gloi ar gyfer derbyn y sgil-gynhyrchion anifeiliaid sydd heb eu trin, a'u storio;

(b) ardal lle mae cerbydau a chynwysyddion yn cael eu **glanhau a'u diheintio** gyda chyfleusterau digonol i wneud hyn; ac

(c) **ardal lân** lle caiff compost neu weddillion treulio wedi'u trin eu storio. Bydd yr ardal lân hon wedi'i gwahanu'n ddigonol oddi wrth yr ardal dderbyn a'r ardal lle mae cerbydau a chynwysyddion yn cael eu glanhau a'u diheintio, er mwyn sicrhau na fydd y deunydd wedi'i drin yn cael ei heintio. Dylid gosod lloriau mewn ffordd sy'n sicrhau na fydd hylif yn gallu tryddiferu i mewn i'r ardal lân o ardaloedd eraill.

**2.** Dylid dadlwytho'r sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn yr ardal dderbyn a naill ai:

(a) eu trin ar unwaith; neu

(b) eu storio yn yr ardal dderbyn a'u trin yn ddi-oed.

**3.** Caiff y safle'i weithredu yn y fath fodd:

(a) fel nad yw deunydd wedi'i drin yn cael ei heintio gan ddeunydd heb ei drin neu wedi'i drin yn rhannol na hylifau sy'n dod ohono; a

(b) fel nad yw deunydd wedi'i drin yn rhannol yn cael ei heintio gan ddeunydd sydd heb ei drin i'r un graddau na hylifau sy'n dod ohono.

**4.** Bydd y gweithredwr yn nodi pwyntiau critigol priodol, yn eu rheoli ac yn eu monitro wrth weithredu'r safle, i ddangos y canlynol:

(a) cydymffurfiaeth â Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 a Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 a Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011;

(b) nad yw deunydd wedi'i drin yn cael ei heintio gan ddeunydd heb ei drin neu ddeunydd sydd wedi'i drin yn rhannol neu hylifau sy'n dod ohono; a

(c) nad yw deunydd sydd wedi'i drin yn rhannol yn cael ei heintio gan ddeunydd sydd heb ei drin i'r un graddau na hylifau sy'n dod ohono.

**5.** Bydd cynwysyddion, llestri a cherbydau a ddefnyddir i gludo sgil-gynhyrchion anifeiliaid heb eu trin yn cael eu glanhau yn yr ardal benodol cyn iddynt adael y safle a chyn i unrhyw ddeunydd wedi'i drin gael ei lwytho. Yn achos cerbydau sy'n cludo gwastraff arlwyo heb ei drin yn unig ac sydd ddim yn cludo deunydd wedi'i drin wedi hynny, dim ond olwynion y cerbyd fydd angen eu glanhau.

**<u>Rhan II:</u> Systemau triniaeth a pharamedrau ar gyfer gwastraff arlwyo**

**1.** Onid yw cymeradwyaeth yn caniatáu system wahanol, yn benodol, caiff gwastraff arlwyo ei drin trwy ddefnyddio un o'r systemau a nodir yn y tabl isod. Bydd y system yn sicrhau y caiff y deunydd ei drin i'r paramedrau canlynol:

**Compostio**

| **System** | **Compostio mewn adweithydd caeedig** | **Compostio mewn adweithydd caeedig** | **Compostio mewn rhesi dan do** |
|---|---|---|---|
| Uchafswm maint gronynnau | 40cm | 6cm | 40cm |
| Isafswm tymheredd | 60°C | 70°C | 60°C |
| Amser lleiaf a dreuliwyd ar y tymheredd isaf | 2 ddiwrnod | 1 awr | 8 diwrnod (ac yn ystod y cyfnod hwn bydd y rhes yn cael ei throi o leiaf 3 gwaith heb fod yn llai na 2 ddiwrnod ar wahân) |

Cyflawnir y gofynion o ran amser a thymheredd fel rhan o'r broses gompostio.

**Bionwy**

| **System** | **Bionwy mewn adweithydd caeedig** | **Bionwy mewn adweithydd caeedig** |
|---|---|---|
| Uchafswm maint gronynnau | 5cm | 6cm |
| Isafswm tymheredd | 57°C | 70°C |
| Amser lleiaf a dreuliwyd ar y tymheredd isaf | 5 awr | 1 awr |

**2.** Fel arfer, bydd y gymeradwyaeth yn nodi un o'r dulliau yn y tabl, ond gallai Gweinidogion Cymru gymeradwyo system wahanol os yw'n fodlon ei bod yn cyflawni'r un lleihad mewn pathogenau â'r dulliau hynny (gan gynnwys unrhyw amodau ychwanegol a osodir ar y dulliau hynny) ac yn yr achos hwn bydd y gymeradwyaeth yn disgrifio'r system gyfan yn llwyr.

**Safleoedd compostio**

**3.** Os yw'r gymeradwyaeth ar gyfer safle compostio'n nodi un o'r dulliau yn y tabl, bydd yn nodi pa un ac, yn ychwanegol at hyn, bydd amod yn nodi naill ai —

(a) y gweithredir mesurau yn y tarddle i sicrhau nad oes cig wedi'i gynnwys yn y gwastraff arlwyo ac, yn dilyn triniaeth, fod y deunydd yn cael ei storio am o leiaf 18 diwrnod (nid oes rhaid storio o fewn system gaeedig), neu

(b) yn dilyn y driniaeth gyntaf, caiff y deunydd ei drin eto gan ddefnyddio un o'r dulliau yn y tabl ac a nodir yn y gymeradwyaeth (nid yr un dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y driniaeth gyntaf o angenrheidrwydd) ac eithrio, os yw'r driniaeth mewn rhes gompostio, yna nid oes rhaid i'r ail driniaeth fod mewn rhesi dan do.

**Safleoedd bionwy**

**4.** Bydd y gymeradwyaeth ar gyfer safle bionwy yn nodi un o'r dulliau yn y tabl ac, yn ychwanegol at hyn, yn gofyn am un o'r canlynol —

(a) cymryd camau yn y tarddle i sicrhau nad oes cig wedi'i gynnwys yn y gwastraff arlwyo; neu

(b) wedi'r driniaeth, caiff y deunydd ei storio am 18 diwrnod ar gyfartaledd.

**Samplo**

**5.** Rhaid i safleoedd sy'n gweithredu i'r safonau yn yr Awdurdodiad hwn brofi am Salmonela ac E. Coli (neu Enterococcaceae) yn unol ag Atodiad V, Pennod III, Adran 3 Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011.

**6.** Ar gyfer systemau 'Canolfan a Phwyntiau Treulio' lle mae'r gwaith hylendid/pasteureiddio'n digwydd ar un safle (y 'ganolfan') cyn ei ddosbarthu i un neu fwy o safleoedd eraill ('pwyntiau treulio') ar gyfer y gwaith compostio neu dreulio anaerobig, rhaid cymryd samplau ar gyfer Salmonela yn y pwyntiau treulio yn unol ag Atodiad V Pennod III Adran 3 Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011.

**Awdurdodiad Ch7**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i ddefnyddio paramedrau prosesau safonedig gwahanol ar gyfer tail wedi'i brosesu, cynhyrchion sy'n dod o dail wedi'i brosesu a baw ystlumod i'w osod ar y farchnad, ar yr amod y dangosir eu bod yn cadw risgiau biolegol i leiafswm:

Yn unol ag **Erthygl 15(1)(i)** Rheoliad (EC) 1069/2009 ac **Erthygl 22(1)** ac **Adran 2(c), Pennod I, Atodiad XI** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi'r defnydd o baramedrau prosesau safonedig gwahanol, fel y nodwyd yn Atodiad A isod, i'r rheiny a nodwyd yn **Adran 2(b), Pennod I yn Atodiad XI** ar gyfer tail wedi'i brosesu, cynhyrchion sy'n dod o dail wedi'i brosesu a baw ystlumod, ac eithrio'r rheiny sydd wedi'u mewnforio o drydedd wlad, i'w rhoi ar y farchnad ar yr amod fod hyn yn cydymffurfio â gofynion **Adran 2(a), (c), (d) ac (e), Pennod I, Atodiad XI** Rheoliad (EU) Rhif 142/2011.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Atodiad A i Awdurdodiad Ch7**

Mae **Gweinidogion Cymru** yn awdurdodi'r defnydd o baramedrau safonedig gwahanol ar gyfer prosesau i'r rheiny y cyfeirir atynt ym **Mhwynt (b) Adran 2, Pennod I Atodiad XI**, ar yr amod fod y gweithredwr yn dangos bod paramedrau o'r fath yn sicrhau bod risgiau biolegol yn cael eu cadw i leiafswm.

Bydd eu gallu i ddangos hyn yn cynnwys dilysu fel a ganlyn:

(a) Adnabod peryglon posib, a'u dadansoddi, gan gynnwys effaith deunydd mewnbwn, ar sail diffiniad llawn o'r amodau prosesu, ac asesiad risg, sy'n gwerthuso sut y caiff yr amodau prosesu penodol eu cyflawni yn ymarferol mewn sefyllfaoedd arferol ac annodweddiadol.

(b) Dilysu'r broses a fwriedir:

(i) trwy fesur y gostyngiad yn hyfywedd/natur heintus organebau dangosol mewndarddol yn ystod y broses, lle mae'r dangosydd:

- yn bresennol yn gyson yn y deunydd crai mewn niferoedd uchel,
- heb fod yn llai gwrthiannol i wres o ran agweddau marwol y broses drin, ond hefyd heb fod yn sylweddol fwy gwrthiannol na'r pathogenau y mae'n cael ei ddefnyddio i'w monitro,
- yn gymharol hawdd ei feintoli ac yn gymharol hawdd ei adnabod a'i gadarnhau; neu

(ii) trwy fesur y gostyngiad yn hyfywedd/natur heintus organeb neu firws prawf â nodweddion penodol, clir, a gyflwynir mewn corff prawf addas i'r defnydd cychwynnol, adeg amlygiad.

(c) Rhaid i'r dilysu y cyfeirir ato ym Mhwynt (ii) ddangos bod y broses yn cyflawni'r gostyngiad cyffredinol canlynol yn y risg:

- ar gyfer prosesau thermol a chemegol trwy ostwng *Enterococcus faecalis* o leiaf 5 log10 a thrwy ostwng titrau heintedd firysau sy'n wrthiannol i wres megis *parvovirus*, lle maent wedi'u nodi fel perygl priodol, o leiaf 3 log10,
- ar gyfer prosesau cemegol hefyd trwy ostwng parasitiaid ymwrthol megis wyau *Ascaris* sp. o leiaf 99,9 % (3 log10) o'r camau hyfyw. EN 26.2.2011 Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd L 54/77.

(ch) Cynllunio rhaglen lawn o reolaeth sy'n cynnwys gweithdrefnau ar gyfer monitro'r broses.

(d) Cyflwyno mesurau sy'n sicrhau y caiff paramedrau perthnasol y broses, sydd wedi'u sefydlu o fewn y rhaglen reoli, eu monitro a'u goruchwylio'n barhaus wrth weithredu'r safle.

Cofnodir manylion paramedrau perthnasol y prosesau a ddefnyddir ar safle, yn ogystal â phwyntiau rheoli critigol eraill, a chânt eu cadw fel bod modd i'r perchennog, y gweithredwr neu eu cynrychiolydd a'r Awdurdod Cymwys fonitro gweithrediad y safle. Rhaid i'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â phroses a awdurdodir o dan y pwynt hwn fod ar gael i'r Comisiwn ar gais.

**Awdurdodiad Ch8**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i ddefnyddio deunydd Categori 1, 2 a 3 at ddibenion diagnostig, addysgol neu ymchwil, ac i gludo, defnyddio a gwaredu samplau ymchwil a diagnostig:

Yn unol ag **Erthyglau 16(b) a 17** Rheoliad (EC) 1069/2009 ac **Erthygl 11** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi i weithredwyr wedi'u cofrestru dan Erthygl 23 Rheoliad (EC) 1069/2009, trwy randdirymiad **Erthyglau 12, 13 a 14** Rheoliad (EC) 1069/2009, ddefnyddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yng Nghategori 1, 2 a 3, ac eithrio'r rheiny sydd wedi'u mewnforio o drydedd wlad:

- at ddibenion diagnostig ac ymchwil, gan gynnwys samplau diagnostig ac ymchwil at ddibenion addysgol, ar yr amod y cydymffurfir â'r rheolau arbennig ar samplau ar gyfer ymchwil a samplau diagnostig yn **Adran 1 Pennod I, Atodiad VI** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011. Fodd bynnag, yn unol ag Awdurdodiad Ch12, nid oes rhaid cofrestru'r broses o drafod a gwaredu samplau ymchwil a diagnostig at ddibenion addysgol, ac eithrio'r rheiny a fewnforiwyd o drydedd wlad, ac nid oes rhaid iddynt gydymffurfio â'r amodau ym **Mhwyntiau 1, 4 a 5 Adran 1, Pennod I, Atodiad VI** Rheoliad y Comisiwn (EU) No142/2011, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio ag Erthygl 17(1)(a) a (b) yn Rheoliad (EC) Rhif 1069/2999.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 25 Mehefin 2012 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

**Sylwer**

Os ydych yn dymuno mewnforio samplau ymchwil a diagnostig o drydedd wlad, dylech gyflwyno cais i Ganolfan Gwasanaethau Arbenigol Mewnforion Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol. Yn yr un modd, os ydych yn dymuno symud samplau ymchwil a diagnostig a fewnforiwyd o drydedd wlad o un cyfleuster i gyfleuster arall, o fewn y Deyrnas Unedig, dylech gysylltu ag Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol.

* Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad Ch9**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i gludo, defnyddio a gwaredu samplau masnach ac eitemau i'w harddangos mewn arddangosfeydd a gweithgareddau artistig:

Yn unol ag **Erthyglau 16(b) a 17** Rheoliad (EC) 1069/2009 ac **Erthygl 12** Rheoliad y Comisiwn Rhif 142/2011 mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi, trwy randdirymiad **Erthyglau 12, 13 a 14** Rheoliad (EC) 1069/2009, i weithredwyr wedi'u cofrestru dan Erthygl 23 yn y Rheoliad hwnnw, gludo, defnyddio a gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yng Nghategori 1, 2 a 3 fel samplau masnach a darnau arddangos ar gyfer arddangosfeydd a gweithgareddau artistig ac eithrio'r rheiny a fewnforiwyd o drydedd wlad, ar yr amod eu bod yn cydymffurfio ag amodau **Adran 2, Pennod I, Atodiad VI** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 25 Mehefin 2012 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

* Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad Ch10**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i gasglu a chludo tail rhwng dau fan ar yr un fferm, neu rhwng ffermwyr a defnyddwyr o fewn y DU, heb ddogfen fasnachol neu dystysgrif iechyd:

Yn unol ag **Erthygl 21** Rheoliad (EC) 1069/2009 fel y'i darllenir gydag **Adran 4, Pennod I, Atodiad VIII** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi, trwy randdirymiad **is-baragraff cyntaf Erthygl 21(2)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 ac **Adran 1, Pennod I, Atodiad VIII** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011, gludiant tail rhwng dau bwynt ar yr un fferm, neu rhwng ffermydd a defnyddwyr tail o fewn y Deyrnas Unedig, heb ddogfen fasnachol neu dystysgrif iechyd, ar yr amod fod y tail yn cael ei gludo:

(a) gan ffermwr â fferm yng Nghymru at ffermwr â fferm –

(iii) yng Nghymru, neu

(i) yn Lloegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon ac mae'r awdurdod cymwys priodol wedi galluogi'r fath gyflenwad; neu

(b) at ffermwr â fferm yng Nghymru gan ffermwr â fferm –

(i) yng Nghymru; neu

(ii) yn Lloegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon ac mae'r awdurdod cymwys priodol wedi galluogi'r fath gyflenwad.

a, lle mae'r tail yn gadael y safle (er enghraifft, i'w gludo ar ffyrdd cyhoeddus), ar yr amod fod y gweithredwr yn cydymffurfio â **Phwynt 1, Adran I Atodiad VIII** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad Ch11**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i alluogi dogfen fasnachol wahanol i fynd gyda sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sy'n cael eu cludo o fewn y DU:

Yn unol ag **ail is-baragraff Erthygl 21(3)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2011 mae Gweinidogion Cymru'n awdurdodi trosglwyddiad, yn unol â'r wybodaeth sy'n ofynnol yn **is-baragraff cyntaf Erthygl 21(3),** trwy system amgen.

Yn ychwanegol at yr uchod, yn unol â **Phwynt 4, Pennod III, Atodiad VIII** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 mae Gweinidogion Cymru'n awdurdodi bod modd cyflwyno'r dogfennau canlynol gyda sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sy'n cael eu cludo o fewn y Deyrnas Unedig:

(a) Dogfen fasnachol wahanol, ar bapur neu'n electronig, ar yr amod bod y ddogfen fasnachol honno'n cynnwys yr wybodaeth y cyfeirir ati ym Mhwynt (f) yn y Nodiadau dan **Bwynt 6 Pennod III Atodiad VIII** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011;

(b) Dogfen fasnachol lle mae swmp y deunydd wedi'i fynegi fel pwysau neu gyfaint y deunydd neu fel y nifer o becynnau.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad Ch12**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i eithrio rhai gweithredwyr (y rheiny sy'n: trafod/cynhyrchu troffïau hela ayb.; trafod/gwaredu samplau ymchwil a diagnostig at ddibenion addysgol; cludo gwlân a blew sych heb ei drin neu'n defnyddio ychydig bach o ddeunydd Categori 2/3 penodol, rhag y gofyniad i gofrestru:

Yn unol ag **Erthygl 20(4)** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 fel y diwygiwyd gan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 1097/2012, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi, trwy randdirymiad **Erthygl 23(1)(a)** Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, bod y canlynol wedi'u heithrio rhag yr angen i hysbysu gyda golwg ar gofrestru:

(a) Gweithredwyr sy'n trafod neu'n cynhyrchu troffïau hela neu baratoadau eraill y cyfeirir atynt ym **Mhennod VI Atodiad XIII** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 at ddibenion preifat neu anfasnachol;
(b) Gweithredwyr sy'n trafod neu'n gwaredu samplau ymchwil a diagnostig at ddibenion addysgol;
(c) Gweithredwyr sy'n cludo gwlân a blew sych heb ei drin, ar yr amod eu bod wedi'u hamgáu'n ddiogel mewn pecynnau, ac yn cael eu hanfon yn uniongyrchol at safle sy'n cynhyrchu cynhyrchion sy'n deillio ohonynt i'w defnyddio tu allan i'r gadwyn fwyd, neu at safle sy'n cynnal gweithrediadau man canol, dan amodau sy'n atal cyfryngau pathogenaidd rhag lledu; a
(ch) Gweithredwyr** sy'n ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol ac yn defnyddio llai nag 20kg yr wythnos o sgil-gynhyrchion anifeiliaid Categori 2 a 3 (ac eithrio'r rheiny a ddefnyddir fel porthiant ar gyfer anifeiliaid fferm), neu gynhyrchion sy'n deillio ohonynt, i'w cyflenwi'n uniongyrchol yng Nghymru (a gweddill y Deyrnas Unedig dan awdurdodiadau tebyg) i'r pen-ddefnyddiwr, y farchnad leol neu sefydliadau adwerthu lleol, fel porthiant ar gyfer anifeiliaid anwes, ar yr amod na fydd hyn yn cyflwyno perygl o ledu clefydau trosglwyddadwy difrifol i fodau dynol neu anifeiliaid.

**(ii)** Gwneud llinynnau offerynnau cerdd neu linynnau bwâu/racedi traddodiadol eich hun o goluddyn mochyn/aderyn;
**(iii)** Cyweirio crwyn amrwd o'r Deyrnas Unedig eich hun;
**(iv)** Gwneud crwyn drymiau o ffynonellau crwyn amrwd o'r Deyrnas Unedig;
**(v)** Gwneud cynhyrchion cwyr gwenyn;
**(vi)** Gwneud canhwyllau gwêr;
**(vii)** Defnydd artistig o sgil-gynhyrchion anifeiliaid e.e. gwneud broetsh allan o grafangau adar, traed cwningod "lwcus";
**(viii)** Defnyddio cyrn ceirw, byfflo neu ddefaid i greu ffyn cerdded ayb;
**(ix)** Chwythu wyau hwyaid, gwŷdd, emiwiaid ayb. at ddibenion crefft;
**(x)** Cyweirio cynffonau ceffylau i'w defnyddio ar geffylau siglo;

**(xi)** Gwneud gwaith tacsidermi domestig.

**Mae’r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

** Dylai gweithredwyr nad ydynt wedi’u cynnwys yn y rhestr hon gysylltu â’u Swyddfa Iechyd Anifeiliaid leol, er mwyn ystyried yr angen i gofrestru eu gweithgaredd neu ei ychwanegu at y rhestr hon fel eithriad.

**Awdurdodiad Ch13**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i alluogi safleoedd sy'n trin crwyn, gan gynnwys crwyn wedi'u calchu, i gyflenwi naddion ac ymraniadau i gynhyrchu gelatin i'w ddefnyddio gan anifeiliaid, fel gwrtaith organig neu ddeunydd i wella pridd:

Yn unol ag **Erthygl 24(4) a Rhan A, Pennod V, Atodiad XIII** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi safleoedd sy'n trafod crwyn, gan gynnwys crwyn wedi'u calchu, i ddarparu naddion ac ymraniadau o'r crwyn hyn i gynhyrchu gelatin i'w ddefnyddio ar gyfer anifeiliaid, gwrtaith organig neu ddeunydd i wella pridd, ar yr amod y cydymffurfir â gofynion **Rhan A** y cyfeiriwyd ati uchod.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad Ch14**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i beidio â sychu plu, rhannau o blu a manblu heb eu trin, os ydynt yn cael eu hanfon yn syth o ladd-dy i safle prosesu:

Yn unol â **Phwynt 1, Rhan A, Pennod VII, Atodiad XIII Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011**, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi trwy randdirymiad y gofyniad ym Mhwynt 1 i sychu deunyddiau yn achos plu, rhannau o blu neu fanblu heb eu trin a anfonir yn syth o'r lladd-dy i safle prosesu ar yr amod eu bod yn cydymffurfio â'r darpariaethau yng ngweddill **Rhan A,** sef:

(a) cymryd pob cam posib i osgoi lledaeniad unrhyw glefyd;
(b) cludo'r deunydd mewn cynwysyddion a/neu gerbydau gwrth-ddŵr ac mae'n rhaid glanhau a diheintio'r cynwysyddion a/neu gerbydau hynny yn ddi-oed bob tro y cânt eu defnyddio

ac ar yr amod yr anfonir y deunyddiau:

(i) o ladd-dy yng Nghymru i safle prosesu –

- yng Nghymru, neu
- yn Lloegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon ac mae'r awdurdod cymwys priodol wedi galluogi rhanddirymiad o'r fath dan **Bwynt 1, Rhan A, Pennod VII, Atodiad XIII** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011.

(ii) i safle prosesu yng Nghymru o ladd-dy –

- yng Nghymru, neu
- yn Lloegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon ac mae'r awdurdod cymwys priodol wedi galluogi rhanddirymiad o'r fath dan **Bwynt 1, Rhan A, Pennod VII, Atodiad XIII** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011

**Mae'r awdurdodiad hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru**

**Dyddiedig 20 Hydref 2011 (diweddarwyd 24 Hydref 2013)**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Awdurdodiad Ch15**

**Gweinidogion Cymru**, fel yr Awdurdod Cymwys i **Gymru** mewn perthynas â'r Rheoliadau UE canlynol:

- Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009* Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 21 Hydref 2009 yn gosod rheolau iechyd ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002

- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011* dyddiedig 25 Chwefror 2011 fel y diwygiwyd yn gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor

## Awdurdodiad i weithredwyr gymryd samplau cynrychiadol ar gyfer trawsffurfio neu gompostio ar ôl pasteureiddio a chyn cyfuno gyda deunyddiau nad ydynt yn dod o anifeiliaid:

Yn unol ag **Erthygl 10** a **Phwynt 3, Adran 3, Pennod III, Atodiad V** Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 fel y diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 749/2011, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn awdurdodi i weithredwyr gymryd samplau cynrychiadol ar ôl y pasteureiddio y cyfeirir ato ym **Mhwynt 1(a), Adran 1, Pennod I Atodiad V** neu ar ôl y compostio y cyfeirir ato ym **Mhwynt 1 Adran 2, Pennod I Atodiad V**, fel sy'n berthnasol, a chyn cymysgu gyda deunyddiau nad ydynt yn deillio o anifeiliaid, er mwyn monitro effeithlonrwydd y gwaith o drawsffurfio neu gompostio'r sgil-gynhyrchion anifeiliaid, fel sy'n berthnasol.

**Mae'r awdurdodiad hwn yn berthnasol yn Lloegr**

**Dyddiedig 24 Hydref 2013**

*Gorfodir yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014